



# Mesur cynnydd tuag at gyflawni nodau llesiant Cymru: Papur trafod

## Cyflwyniad

Mae'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol wedi gofyn i'r Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru (PPIW) roi cyngor a chymorth i Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu 'Dangosyddion Cenedlaethol' a fydd yn mesur cynnydd Cymru gyfan tuag at y nodau sydd wedi'u datgan ym Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Nid yw'r gwaith hwn yn rhan o'r Sgwrs Genedlaethol ar 'Y Gymru a Garem' (gweler [ygyfmuagarem.co.uk](http://ygyfmuagarem.co.uk) i gael rhagor o wybodaeth am hyn), er y bydd canlyniadau'r Sgwrs Genedlaethol yn dylanwadu ar y gwaith hwn.

Mae'r papur hwn yn ddogfen drafod a baratowyd gan PPIW ac fe'i cynlluniwyd i ysgogi'r gwaith hwn a'r trafodaethau a gynhelir yn ystod y prosiect. Mae'n crynhoi ein dealltwriaeth o gyflwr y drafodaeth yng Nghymru ac mae'n defnyddio tystiolaeth ryngwladol i amlinellu rhai o'r problemau a'r cwestiynau y bydd angen mynd i'r afael â nhw wrth ddatblygu set briodol ac effeithiol o Ddangosyddion Cenedlaethol.

Fe'i drafftwyd i ysgogi trafodaeth ar ddechrau'r prosiect hwn; felly, ni ddylid ystyried ei fod yn adlewyrchu barn gadarn unrhyw un sy'n gysylltiedig. Caiff darllenwyr eu gwahodd i anfon unrhyw sylwadau at [info@ppiwi.org.uk](mailto:info@ppiwi.org.uk).

## Cefndir

Fe wnaeth Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) fel y'i cyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2014 nodi "nodau llesiant" ar gyfer Cymru (mae'r rhain yn destun diwygio<sup>1</sup>):-

---

<sup>1</sup> Mae'r gwelliannau a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru ar 11 Chwefror, gan gynnwys set ddiwygiedig o nodau llesiant, i'w gweld yn:

<http://www.senedd.assembly.wales/documents/s36723/Notice%20of%20Amendments%2011%20February%202015.pdf>

- **Cymru lewyrchus.** Economi arloesol a chynhyrchiol, gydag allyriadau carbon isel, sy'n defnyddio adnoddau yn fwy effeithlon a chymesur; ac sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyfleodd am gyflogaeth ar gyfer poblogaeth fedrus ac addysgedig.
- **Cymru gydnerth.** Amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynorthwyo cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid.
- **Cymru iachach.** Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
- **Cymru sy'n fwy cyfartal.** Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.
- **Cymru o gymunedau cydlynus.** Cymunedau atyniadol, hyfyw, diogel sydd â chysylltiadau da.
- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.** Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

Yn ogystal, mae'r Bil yn gofyn i Weinidogion Cymru gyhoeddi dangosyddion sydd wedi'u cynllunio i fesur "cynnydd tuag at gyrraedd y nodau llesiant", y cyfeirir atynt yma fel y "Dangosyddion Cenedlaethol". Er bod y nodau wedi'u cyflwyno yn y Bil (ac yn destun diwygio), nid yw'r Dangosyddion Cenedlaethol wedi'u pennu a bellach mae angen gwaith i ddatblygu'r rhain. Rhagwelir y bydd pedwar cam i hyn:-

- Llywodraeth Cymru (gyda chymorth PPIW) yn datblygu cynigion ac opsiynau;
- Ymgynghoriad cyhoeddus ar y rhain;
- Cyhoeddi'r Dangosyddion Cenedlaethol, gan ystyried yr ymgynghoriad; a
- Chyhoeddi'r Adroddiad Llesiant Blynyddol cyntaf, gan ddefnyddio'r Dangosyddion Cenedlaethol.

## **Diben a defnydd y Dangosyddion Cenedlaethol**

Amcan cyffredinol y Bil yw gwella llesiant cenedlaethau heddiw ac yn y dyfodol, trwy wella'r ffordd o lunio polisiau a chyflwyno gwasanaethau ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Yn y dyfodol, bydd rhaid cyflawni'r rhain yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, a bwriedir y bydd mwy o 'undod' iddynt, y byddant yn canolbwyntio'n fwy ar y tymor hir ac y byddant yn cyd-fynd â blaenoriaethau a phryderon trigolion Cymru yn well. Bydd y Dangosyddion Cenedlaethol yn cael eu cynllunio i gefnogi'r amcanion hyn.

Oherwydd bydd y Dangosyddion Cenedlaethol yn mesur cynnydd tuag at y nodau i Gymru, yn hytrach na chynnydd tuag at amcanion sefydliadau penodol, *ni fyddant* yn dargedau ar gyfer perfformiad ac ni ddylid ystyried eu bod yn diffinio amcanion uniongyrchol polisïau neu raglenni penodol.<sup>2</sup> Fodd bynnag, bydd yn ofynnol i Weinidogion a'r cyrff cyhoeddus sy'n cael eu henwi yn y Bil osod amcanion llesiant a gynlluniwyd fel eu bod yn cyfrannu cymaint â phosibl yn unigol at gyflawni'r nodau llesiant, a chyhoeddi adroddiadau blynyddol o'u cynnydd tuag at gyrraedd yr amcanion hyn. Bwriedir i'r amcanion llesiant hyn gyd-fynd ag amcanion neu fframweithiau mesur perfformiad presennol, fel y Rhaglen Lywodraethu, yn hytrach na bod yn ychwanegol atynt neu ar wahân iddynt. Trwy bennu sut byddwch yn deall cynnydd tuag at gyrraedd y nodau, mae'r Dangosyddion Cenedlaethol yn debygol o ddylanwadu ar ddatblygiad yr amcanion llesiant hyn ac unrhyw ddangosyddion a ddefnyddir i fesur perfformiad yn erbyn yr amcanion hyn. Yn wahanol i set bresennol Llywodraeth Cymru o Ddangosyddion Datblygu Cynaliadwy, y mae ei defnydd yn wirfoddol, mae rôl statudol, ganolog mewn datblygu polisi gan y Dangosyddion Cenedlaethol.

O gofio hyn, gallant gyfrannu at bolisïau a chyflwyno gwasanaethau mwy unedig, i'r graddau y maent:

- **yn egluro** beth sydd ynghlwm wrth wneud cynnydd tuag at y nodau
- ar y sail hon yn darparu **fframwaith cytûn** er mwyn i'r cyrff cyhoeddus sydd wedi'u henwi yn y Bil, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, osod eu hamcanion
- yn mesur deilliannau a gyrwyr llesiant sy'n gofyn am **gydweithredu a chyd-drefnu rhwng ac o fewn y cyrff cyhoeddus hyn** er mwyn eu cyflawni.

Gallant gyfrannu at fwy o ffocws ar y tymor hwy yn yr ystyr eu bod yn cynnwys dangosyddion sy'n helpu i **ragfynegi llesiant cenedlaethau'r dyfodol**.<sup>3</sup> Gallant gyfrannu at aliniad gwell â blaenoriaethau a phryderon y cyhoedd i'r graddau y maent yn **adlewyrchu blaenoriaethau a phryderon y cyhoedd**.

---

<sup>2</sup> Mae'r gwahaniaeth hwn rhwng nodau cenedlaethol ac amcanion sefydliadol yn holl bwysig er mwyn osgoi cymhlethdod a dryswch. Mae'r Fframwaith Atebolrwydd ar Sail Canlyniadau™ (RBA) yn gwahaniaethu rhwng deilliannau llesiant fel 'dibenion' rydym ni oll yn eu chwennych, a'r 'moddau' sef, yn rhannol, y raglenni a'r cynlluniau y gallai'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a phartneriaid eraill eu rhoi ar waith yn y cyd-destun hwnnw. Nid oes un sefydliad unigol yn gallu cyflwyno deiliant llesiant ac, oherwydd hyn, mae'r RBA yn awgrymu nad yw gosod targedau ar gyfer deilliannau llesiant yn gwneud synnwyr. Yr hyn sydd ei angen, fodd bynnag, yw cydberchenogaeth ar nodau a metrigau clir, uchelgais am newid a gwelliant, a chynllun ar y cyd i wneud cynnydd.

<sup>3</sup> Ni fydd y Dangosyddion Cenedlaethol eu hunain yn rhagfynegiadau ond gallant ddylanwadu ar ragfynegiadau, er enghraifft yn yr Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol.

Bydd y cyfraniadau hyn yn cael eu hatgyfnerthu gan y gofyniad i'w cyhoeddi mewn adroddiad llesiant blynyddol gan Lywodraeth Cymru, a gyflwynir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn ogystal, bydd yn rhaid i Gomisiynydd statudol Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ystyried yr adroddiad hwn – ac felly'r dangosyddion – wrth baratoi 'Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol' (fel y cyfeirir ato yn adran 21 y Bil ac na ddylid drysu rhyngddo ag 'Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol') ar sut y dylai Gweinidogion a chyrrff cyhoeddus eraill ddiogelu buddiannau cenedlaethau'r dyfodol yn well a throi eu golwg tuag at y tymor hir.

Mae'r rhain yn amcanion uchelgeisiol. Mae ymchwil a phrofiad rhyngwladol wedi dangos pa mor heriol yw hi i gynllunio dangosyddion i weithio yn y ffordd y'u bwriadwyd. Mae perygl gwirioneddol y bydd y Dangosyddion Cenedlaethol yn mynd yn 'set arall o ddangosyddion yn unig', yn cyfrannu at y syrffed o fframweithiau y gwnaeth adroddiad Williams<sup>4</sup> ei amlygu a'i feirniadu. Fodd bynnag, gellir osgoi hyn (a) os cânt eu cynllunio'n dda, hynny yw, eu bod yn mesur y pethau cywir ac yn eu mesur yn y ffordd gywir a (b) os caiff y broses ar gyfer eu defnyddio ei chynllunio'n dda.

Mae'r papur hwn yn ymwneud â datblygu, yn hytrach na defnyddio, y dangosyddion. Mae'n cyflwyno rhai syniadau ynghylch ystyr 'wedi'u cynllunio'n dda' wrth ddisgrifio dangosyddion, gan ymdrin â mesur y pethau cywir a'u mesur yn y ffordd gywir; wrth wneud hyn, mae'n cyffwrdd â'r math o broses ddatblygu y mae ei hangen i gyflawni hyn. Ar hyn o bryd, nid oes trafodaeth ar y dangosyddion eu hunain. Caiff darllenwyr eu gwahodd i gyfrannu eu syniadau ynghylch ystyr 'wedi'u cynllunio'n dda', a chyfrannu unrhyw sylwadau ac ychwanegiadau at yr egwyddorion isod a fydd yn llywio datblygiad y dangosyddion.

## Mesur y pethau cywir

Yn fras, y nodau llesiant fel y'u disgrifir yn y Bil ac a ddyfynnir uchod sy'n pennu'r hyn y dylai'r set dangosyddion ei fesur. Fodd bynnag, fel y gellir ei weld, mae'r nodau hyn yn rhai amlweddog ac mae ffyrdd gwahanol o ddehongli sawl un o'r gweddau (er enghraifft, beth yw ystyr cyflawni potensial yn ymarferol? Beth yw cymuned atyniadol?) Felly, bydd **dewisiadau** yn rhan o waith dethol dangosyddion. Yn ogystal, gan y bydd unrhyw set hylaw yn cynnwys nifer cyfyngedig o ddangosyddion, bydd angen **blaenoriaethu**. Yn drydydd, gallai alinio'r dangosyddion yn uniongyrchol â nodau unigol (neu weddau ar nodau) annog ffordd o feddwl ynysig / 'blwch ticio', ac

---

<sup>4</sup> Tynnodd Adroddiad Williams ('Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus' Ionawr 2014) sylw at y ffordd y mae toreth o ddangosyddion yn niweidio yn hytrach nag yn gwella perfformiad.

un o brif amcanion y Bil yw llesteirio hyn. Mae meddwl ynysig yn aml yn arwain at ddatblygu *anghynaliadwy*. Felly, yn ddelfrydol, bydd llawer o'r dangosyddion yn mesur cynnydd tuag at fwy nag un nod a bydd hyn yn gofyn am **ddadansoddi'r** cysylltiadau rhwng gwahanol nodau<sup>5</sup>.

Ystyr hyn oll yw bod angen proses ar gyfer diffinio'n union beth ddylai'r dangosyddion ei fesur. Ni chaiff y broses hon fod yn un fymrwyl: dylai gynnwys cymhwysio egwyddorion a meini prawf cytûn. Rydym yn crynhoi ein hystyriaethau presennol ynghylch y rhain yn nhabl 1, gyda rhywfaint o ymhelaethu yn y troednodiadau. Yr her fydd datblygu set sy'n dilyn yr holl egwyddorion hyn.

*Tabl 1*

<b>Egwyddor</b>	<b>Sylwadau</b>
1) Dylai'r dangosyddion fesur <b>deilliannau</b> .	Fel y dywedir yn y Bil. <sup>6</sup> Fodd bynnag, gweler egwyddor 8.
2) Dylai'r deilliannau hyn <b>daro tant</b> gyda'r cyhoedd a bod yn bwysig iddynt, a rhaid i'r dewis ystyried y Sgwrs Genedlaethol beilot a'r Ymgynghoriad ffurfiol yn ystod 2015.	Nid dewisiadau technegol na rhai sy'n seiliedig ar ddadansoddiad yw llawer o'r dewisiadau sydd i'w gwneud, ond byddant yn adlewyrchu gwerthoedd. Rhaid penderfynu ar y dewisiadau hyn trwy broses o drafod cyhoeddus <sup>7</sup> .
3) Dylai fod <b>nifer cyfyngedig</b> ohonynt: dim mwy na saith prif ddangosydd a 30 dangosydd mewn ail haen.	Mae hyn yn perthyn i egwyddor 2 ac yn deillio ohoni, oherwydd dim ond nifer bach iawn o ddangosyddion sy'n gallu ennyn sylw'r cyhoedd. <sup>8</sup>

<sup>5</sup> Er enghraifft, gallai dangosyddion yn ymwneud ag anghydraddoldebau iechyd fesur cynnydd tuag at 'Gymru iachach' a 'Chymru sy'n fwy cyfartal'.

<sup>6</sup> "Rhaid iddo [y dangosydd] gael ei ddatgan ar ffurf gwerth y gellir ei fesur, neu nodwedd y gellir ei mesur, yn feintiol neu'n ansoddol yn erbyn canlyniad penodol." Yn nodweddiadol, caiff deilliannau eu diffinio ar ffurf effeithiau, gan gyferbynnu'r rhain â mewnbynnau ac allbynnau; er enghraifft, mae llai o dagfeydd yn un o ddeilliannau ffordd newydd (allbwn) sy'n deillio o gynnydd yn y buddsoddiad mewn adeiladu ffyrdd (mewnbwn).

<sup>7</sup> Mae'n fwy anodd gwireddu potensial trawsnewidiol setiau dangosyddion os ydynt yn cael eu datblygu trwy broses cyfan gwbl o'r brig i lawr – casgliad gan brosiect BRAINPOoL (Whitby, Alastair, Mawrth 2014, The BRAINPOoL Project: Beyond GDP – From Measurement to Politics and Policy. A collaborative programme funded by the European Union's Seventh Programme for research, technological development and demonstration under grant agreement No. 283024).

<sup>8</sup> Rhaid i'r set o ddangosyddion gyfathrebu â'r cyhoedd os yw am gael cefnogaeth wleidyddol ac, felly cefnogaeth polisi. Syniad safonol mewn seicoleg gwybyddol yw y gall y rhan fwyaf o bobl ddal dim ond saith darn o wybodaeth yn eu pen ar y tro. Mae 42 o ddangosyddion gan olwyn llesiant y Deyrnas Unedig ac, yn rhannol am y rheswm hwn, ychydig iawn o

<p>4) Dylai'r dangosyddion lunio <b>set gydlynol</b>, y gellir ei chyfiawnhau gan resymeg a'i fframio gan naratif am yr hyn y mae cynnydd yn ei olygu i Gymru.</p>	<p>Nid oes modd cynrychioli pob buddiant yn y set, felly rhaid gallu amddiffyn y dewis. Mae'n rhaid i'r set helpu'r cyhoedd i ddwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif; mae hyn yn mynnu naratif sy'n adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i'r cyhoedd.<sup>9</sup></p>
<p>5) Mae angen i'r deilliannau fod yn rhai lle y gellir <b>cyflawni cynnydd</b> sylweddol dros gyfnod tymor hwy a lle y gellir mesur cerrig milltir dros gyfnod o 5 i 15 mlynedd.</p>	<p>Er mwyn mesur cynnydd, mae'n rhaid bod posibilrwydd o newid o fewn cyfnod rhesymol, ond nid oes angen iddo fod yn rhy fyr – nid yw canlyniadau rhai ymyriadau llwyddiannus ond yn ymddangos mewn ystadegau yn y tymor hir a'r amcan yw cryfhau'r ffocws ar y tymor hir.<sup>10</sup></p>
<p>6) Mewn egwyddor, mae angen i'r deilliannau fod yn <b>sensitif i benderfyniadau a wneir yng Nghymru</b> (er nid dim ond gan gyrrff cyhoeddus) – ac, i'r graddau y bo penderfyniadau a wneir rywle arall yn holl bwysig, mae angen datgan hyn yn glir.</p>	<p>Er mwyn i'r Dangosyddion Cenedlaethol ddylanwadu ar bennu amcanion, rhaid iddynt fod yn ddeilliannau y gall cyrff cyhoeddus ddylanwadu arnynt. Ond, bydd rhai deilliannau sy'n bwysig i'r cyhoedd yn cael eu gyrru'n bennaf gan benderfyniadau a wneir y tu allan i Gymru.</p>
<p>7) Lle y bo'n bosibl, ni ddylai'r deilliannau fod â pherthynas 1:1 â'r nodau, ond dylent <b>adlewyrchu cynnydd o ran dau nod neu ragor</b>; fodd bynnag, mae angen i'r set gyfan gefnogi'r holl nodau'n gytbwys.</p>	<p>Mae hyn yn adlewyrchu natur systemig llawer o'r materion a'r angen canlyniadol am weithio mewn ffordd nad yw'n ynysig – a hefyd yr angen am fesur cynnydd gyda nifer cymharol fach o ddangosyddion</p>
<p>8) Dylai cyfran sylweddol o'r deilliannau <b>ein helpu ni i ragfynegi llesiant cenedlaethau'r</b></p>	<p>Nid rhagfynegiadau yw dangosyddion, ond gallant helpu i ragfynegi. Efallai na fydd hyn yn</p>

gydnabyddiaeth gyhoeddus sydd ganddi. Ar y llaw arall, byddai'n heriol iawn creu cyfres o chwe dangosydd, dyweder, ar gyfer chwe nod, sy'n sicrhau darlun llawn o hyd a lled y nodau. Felly, dyma'r rheswm dros gynnig dwy haen. Yn ddelfrydol, byddai'r brif set yn cynrychioli'r set fwy, yn yr ystyr y gellid disgwyl i newidiadau ar y lefel is arwain at newidiadau ar y lefel uwch. Nid yw hyn yn golygu y byddai'n rhaid i'r brif set o ddangosyddion fod yn rhai cyfansawdd – dim ond y byddai modd casglu bod perthynas achosol rhwng y deilliannau unigol.

<sup>9</sup> Er mwyn i'r dangosyddion sicrhau cefnogaeth wleidyddol, dadleuodd prosiect BRAINPOOL (gweler nodyn 3) fod angen i'r gwaith o ddethol y deilliannau lywio ac adlewyrchu naratif gymhellgar, un sy'n esbonio sut mae'r byd yn gweithio ac yn disgrifio sut y mae'n rhaid i bethau newid er mwyn gwella bywydau pobl.

<sup>10</sup> Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion sefydlu pa gyfnod y mae'r dangosyddion yn gysylltiedig ag ef

<b>dyfodol</b> , nid <i>dim ond</i> sut oedd y gorffennol – fel nad <i>dim ond</i> deilliannau ydynt.	syml: nid yw amcangyfrif tueddiadau a dibynnu ar gerrig milltir bob amser yn ddigon. <sup>11</sup>
9) Dylai deilliannau ymwneud â <b>phoblogaeth Cymru gyfan</b> <sup>12</sup> – er bod mesurau anghydraddoldeb yn gofyn am ddata wedi'i ddadgyfuno a gallent ganolbwyntio ar leiafrifoedd.	O gofio eu rôl, nid oes <i>angen</i> dadansoddi Dangosyddion Cenedlaethol yn ôl ardal – heblaw lle mae cymariaethau'n rhan ohonynt. Bydd setiau dangosyddion eraill yn darparu gwybodaeth ardal <sup>13</sup> .
10) Ni ddylai penderfyniadau ynghylch deilliannau gael eu gyrru gan gyfresi dangosyddion presennol; fodd bynnag, mae'r rhain – a gwaith sy'n mynd rhagddo (gan gynnwys gwaith ar Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig) – yn <b>fewnbwn defnyddiol</b> i'r broses ddatblygu.	Gallai'r set Dangosyddion Cenedlaethol helpu i symleiddio setiau dangosyddion perfformiad cyrff cyhoeddus penodol, efallai trwy 'ddadansoddi cyfraniadau'. <sup>14</sup> Dylid ei chynllunio gyda hyn mewn golwg.

## Mesur y ffordd gywir

Pan fydd yr hyn y dylid ei fesur yn hollol glir, rhaid dewis neu gynllunio dangosyddion sy'n mesur y pethau hyn a chyfleu'r canlyniadau yn effeithiol. Yn yr un modd â phenderfynu beth i'w fesur, mae hyn yn cynnwys dilyn set o egwyddorion ac mae ein hystyriaethau presennol ynghylch y rhain wedi'u cyflwyno yn nhabl 2. Maent yn ymwneud â chyfathrebu effeithiol, cywirdeb, cydbwysedd a dichonolrwydd.

### Tabl 2

<sup>11</sup> Er y gallai tueddiadau blwyddyn ar ôl blwyddyn gynrychioli cerrig milltir addas mewn rhai achosion (h.y. eu bod yn ddigon i ragweld llesiant yn y dyfodol), mewn achosion eraill, yn enwedig y rhai lle nad yw newidiadau byrdymor i'w gweld, neu lle y bo angen buddsoddiad tymor hir, gall tueddiadau blwyddyn ar ôl blwyddyn fod yn gamarweiniol. Yna, gallai fod angen dewis deilliannau sydd, yn ôl y dystiolaeth, yn yrwyr hefyd, er enghraifft lefelau buddsoddi neu gyrhaeddiad addysgol.

<sup>12</sup> Yn hytrach na pherfformiad neu gyflawni amcanion gan gyrff cyhoeddus unigol.

<sup>13</sup> Wrth reswm, os oes data wedi'i ddadgyfuno ar gael, yna dylid ei ddarparu gyda data'r prif ddangosydd.

<sup>14</sup> Fel yr ymarfer yn yr Alban. Gall hyn helpu sefydliadau i nodi eu cyfraniadau at newidiadau yn y deilliannau a "dangos eu bod yn gweithio tuag at y nodau llesiant" yn unol â'r Datganiad o Fwriad y Polisi

Egwyddor	Sylwadau
<i>Cyfathrebu effeithiol</i>	
1) Dylai'r hyn y mae'r dangosydd yn ei fesur allu cael ei grynhoi'n fyr mewn ffordd y bydd y cyhoedd yn ei deall ar unwaith.	Nid yw hyn yn gofyn am ddealltwriaeth o sut caiff y dangosydd ei saernïo, a all fod yn gymhleth tra bo'r hyn y mae'n ei fesur yn syml. Mae'r gyfradd chwyddiant yn enghraifft dda o hyn.
2) Dylai'r dangosydd ganiatáu ar gyfer gallu llunio cymariaethau dros amser. Felly, dylai cymariaethau fod yn ddilys hyd yn oed wrth i bolisiâu neu ddulliau casglu data newid, dylai fod ffynonellau data sicr, a dylai gwerth y dangosydd allu newid dros amser.	Mae'r hawl i brydau ysgol am ddim yn enghraifft o ddangosydd sy'n methu'r prawf hwn gan fod y rheolau ar gyfer pwy sy'n gymwys yn gallu newid.
3) Yn ddelfrydol, dylai'r dangosydd ganiatáu ar gyfer gwneud cymariaethau â lleoedd eraill ac, felly, dylai gael ei gydnabod yn rhyngwladol. <sup>15</sup>	Fodd bynnag, ni all y ffaith bod ystadegau rhyngwladol ar gael yrru blaenoriaethau cenedlaethol – ni all y defnydd ar y Gymraeg gael ei gymharu'n rhyngwladol.
4) Dylai arwyddocâd unrhyw newidiadau fod yn amlwg ar unwaith.	Ni ddylai fod modd dadlau bod newidiadau yn amrywiadau ar hap (fel yn achos tymheredd cyfartalog, er enghraifft); rhaid hefyd cytuno pa gyfeiriad sy'n dda a pha gyfeiriad sy'n ddrwg.
5) Mae angen i bob cynulleidfa gredu bod y dangosydd yn mesur y deilliant yn effeithiol ac yn ddibynadwy mewn gwirionedd, a dylai grwpiau gwahanol ddeall y dangosydd yn yr un ffordd.	Er enghraifft, os caiff canlyniadau TGAU eu defnyddio fel dangosydd cyrhaeddiad addysgol, mae angen i'r cyhoedd, athrawon a swyddogion perthnasol gredu bod y canlyniadau hyn yn adlewyrchu cyrhaeddiad mewn gwirionedd.
6) Rhaid i ddangosyddion ddarparu gwybodaeth gyfredol yn ddigon aml i ganiatáu am farnu cynnydd ac ysgogi camau gweithredu priodol.	Oherwydd y dylid gallu cyfleu'r set yn ei chyfanrwydd, yn ddelfrydol, bydd yn cynnwys dangosyddion sydd â mynychder ac

<sup>15</sup> Er enghraifft, bydd yn ddefnyddiol gwneud nodyn o ddangosyddion a ddatblygwyd i fesur cynnydd Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.



	amseroldeb tebyg – ond mae'n bosibl na ellir cyflawni hyn
7) Rhaid dewis a chynllunio dangosyddion er mwyn osgoi annog camau gweithredu sy'n gwella'r dangosydd ar draul deilliannau ehangach.	Mae enghreifftiau'n cynnwys targedau amser aros sy'n gallu ystumio blaenoriaethau ysbyty, neu dablau cynghrair o ganlyniadau arholiadau sy'n annog 'addysgu ar gyfer y prawf'.
<i>Cywirdeb</i>	
8) Lle y caiff data arolygon ei ddefnyddio, dylid dangos bod ymatebwyr yn rhoi atebion cyson i gwestiynau ar achlysuron gwahanol.	Yn gyffredinol, dylid gwneud nodyn o gangymeriadau mesur posibl.
9) Ni ddylai'r dangosyddion gael eu seilio ar feintiau sampl sy'n rhy fach ym marn ystadegwyr i gyfiawnhau casgliadau ynghylch y deilliant a fesurwyd.	Yn aml, dyma'r rheswm pam na all dangosyddion gael eu dadgyfuno yn ôl ardal.
10) Bwriedir y bydd setiau data'r Dangosydd Cenedlaethol yn 'Ystadegau Gwladol'. Felly, lle bynnag y bo modd, dylai dangosyddion ddefnyddio Ystadegau Gwladol presennol, neu dylid o leiaf eu profi a'u canfod yn addas at ddibenion ymchwil.	Ystadegau Gwladol yw'r rhai y mae Awdurdod Ystadegau'r DU yn tystio eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol.
<i>Cydbwysedd</i>	
11) Dylai'r set gyfan gynnwys dangosyddion goddrychol yn ogystal â rhai gwrthrychol.	Mae deilliannau goddrychol – er enghraifft 'ofn troseddau' – yn aml mor bwysig â rhai gwrthrychol.
12) Gall y set gyfan gynnwys dangosyddion sy'n seiliedig ar ddata ansoddol yn ogystal â data meintiol	Mae'r Bil yn caniatáu am hyn. Nid yw'n glir ar hyn o bryd beth fyddai'r dangosyddion hyn.
<i>Dichonolrwydd</i>	
13) Mae'n well bod y data ac, yn ddefnyddiol, y dangosydd ei hun yn bodoli eisoes am resymau cost, ond nid yw hyn yn hanfodol.	Os gellir cyfiawnhau'r gost ac unrhyw faich ar ymatebwyr, gellir casglu data newydd neu gellir casglu data presennol yn amlach neu'n gynt.

## **Pwyntiau trafod**

Caiff darllenwyr eu gwahodd i gyfrannu eu barn am beth yw dangosyddion sydd 'wedi'u cynllunio'n dda' ac i roi unrhyw sylwadau ar yr egwyddorion uchod. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn safbwyntiau am y cwestiynau canlynol:

- Ai'r egwyddorion sydd wedi'u cyflwyno yn nhablau 1 a 2 yw'r rhai cywir?
- A ydym ni wedi hepgor unrhyw beth?
- A oes angen eu mireinio mewn unrhyw ffordd?

Os hoffech gyflwyno sylwadau, anfonwch y rhain at [info@ppiw.org.uk](mailto:info@ppiw.org.uk).